**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2013 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 y prynhawn.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. J M Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. P Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon, R Simmons ac R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G W Griffiths (Uwch Reolwr Datblygu); L Roberts (Uwch Reolwr yr Adran Reoli a Pharhad Busnes); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); J Brown (Rheolwr Cyllid dros dro); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. P W Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| S A Smith | Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr |
| K Finch | Trysorydd |

Ar ddechrau'r cyfarfod, rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau ei fod yn bleser o'r mwyaf iddo gyhoeddi bod y Gwasanaeth wedi ennill dwy wobr bwysig yn ddiweddar. Esboniodd y DBST fod y Gwasanaeth wedi derbyn gwobr Ysbrydoli Cymru: Cymraeg yn y Gweithle sy'n cydnabod y camau gweithgar y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi eu cymryd i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a hynny'n arwain at greu effaith gadarnhaol yn y sefydliad.

Roedd y Gwasanaeth hefyd wedi ennill sêl bendith Safon Platinwm Iechyd Corfforaethol. Mae'r Safon Iechyd Corfforaethol yn rhaglen Cymru Iach ar Waith ac mae'n farc safon cenedlaethol y gellir ei ennill ar lefel Efydd, Arian, Aur a Phlatinwm. Cedwir y lefel Platinwm ar gyfer cyflogwyr enghreifftiol sy'n dangos rhagoriaeth mewn busnes ac yn rhoi ystyriaeth lawn i'r cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Roedd y Gwasanaeth eisoes wedi cael y wobr iechyd corfforaethol – aur, ond eu bod wedi gwneud cais yn 2013 am yr wobr blatinwm. Roedd yr archwilwyr yn hynod falch gyda'r cais, gan ei ddisgrifio fel un nodedig. Maent wedi gofyn i staff o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fentora sefydliadau eraill, a hynny yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Darperir rhagor o wybodaeth am y wobr yng nghyfarfod nesaf y Panel Gweithredol ym mis Hydref.

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 13 MAI 2013

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4 Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

4.1 Cafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei gyflwyno i'r aelodau i gael eu sylwadau cyn iddo gael ei gyflwyno o fewn y ddogfen gyflawn o gyfrifon. Mae'r Datganiad yn ffordd o adrodd yn gyhoeddus i ba raddau y mae Awdurdod yn cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol ei hun.

4.2 Rhoddodd y Rheolwr Cyllid gyflwyniad am bob egwyddor o'r Datganiad a sut y mae'r Awdurdod wedi monitro pa mor effeithiol yw ei drefniadau llywodraethu. Hefyd, esboniodd y Rheolwr Cyllid gamau arfaethedig yr Awdurdod i sicrhau ei fod yn cynnal ac yn gwella'n barhaus ei drefniadau llywodraethu.

4.3 Holodd y Cyng. McGuill pa mor aml y mae'r gofrestr risgiau yn cael ei hadolygu, a phwy sy'n gwneud hynny. Esboniodd y DBST fod dau ffurf o gofrestr risg mewn lle. Mae cofrestr risgiau rheoli parhad busnes yn ei lle ers sawl blwyddyn, a chafodd ei phrofi mewn sefyllfaoedd go iawn yn ogystal ag mewn ymarferiadau a'r gofrestr risgiau corfforaethol lefel uchel. Mae hwn wedi bod mewn bodolaeth ers tair blynedd, ac mae trafodaethau gydag Archwilio Mewnol ynglŷn â rhai manylion.

4.4 Dywedodd y Clerc y dylai'r gofrestr risgiau fod yn strategol yn ogystal ag yn ddigon gweithredol, ac awgrymodd y dylai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol y flwyddyn nesaf gynnwys mwy o wybodaeth am y gwaith mewn partneriaeth/ar y cyd.

4.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Corfforaethol 2012-13.**

5 ADOLYGIADAU O LYWODRAETHU

5.1 Rhoddodd Ron Price o Swyddfa Archwilio Cymru drosolwg o'r gwaith y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ei wneud ynglŷn â'r datganiad llywodraethu blynyddol, ar draws y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru.

5.2 Esboniodd Mr Price fod staff y Swyddfa wedi gwneud gwaith maes rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth, ac y bydd hyn yn bwydo mewn i ddigwyddiadau dysgu a dogfennau ynglŷn â gwella. Ystyrid yn gyffredinol y dylai llywodraethu gael sylw ehangach a dyfnach, a mynd y tu hwnt i'r datganiad ar lywodraethu yn nogfen y datganiad o gyfrifon.

5.3 Mater arall y soniodd Mr Price amdano oedd y canlynol: er bod gan yr Awdurdod lefel uchel o lywodraethu, dylai sicrhau bod ei bartneriaid hefyd yn talu'r un sylw i faterion llywodraethu. Roedd cydweithio yn rhan bwysig o waith y Pwyllgor Materion Cenedlaethol, ac roedd yn bwysig sicrhau bod cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn cael eu dosrannu'n gyfartal rhwng y Gwasanaethau.

5.4 Nodwyd bod safon y dystiolaeth i gefnogi cydymffurfiad wedi gwella, a bod y ddogfen yn cynnwys gwybodaeth fwy eglur a chynhwysfawr.

5.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 MONITRO PERFFORMIAD 2012-13

6.1 Cyflwynodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol yr adroddiad monitro perfformiad a oedd yn ymdrin â holl gyfnod adrodd 2012/13 rhwng 1af Ebrill 2012 – 31ain Mawrth 2013. Yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin, roedd yr Aelodau wedi cael cyflwyniad ar ffigurau perfformiad anarchwiliedig amcanol 2012-13.

6.2 Aeth y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol â'r Aelodau drwy'r adroddiad a thynnu sylw at y materion canlynol:

6.3 Bu cynnydd bach yn nifer y bobl a gafodd anafiadau mewn tanau damweiniol mewn anheddau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Er bod mwyafrif helaeth yr anafiadau'n cael eu categoreiddio fel rhai 'bychain', roeddent yn ddigon pwysig i gadarnhau ei bod yn bwysig cadw pwyslais mawr ar atal tanau. Holodd y Cyng. Pemberton am y diffiniad o archwiliadau rhagofalus a chymorth cyntaf a roddir yn y fan a'r lle, ac esboniodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol mai diffiniad cenedlaethol ydoedd ac y byddai'n anfon yr union eiriad o'r diffiniad at y Cyng. Pemberton.

6.4 Roedd 15% o'r anheddau a gafodd dân heb larwm mwg; roedd hyn y cyfateb i'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, gellid dweud bod y ffigwr hwn yn gamarweiniol gan fod cyfanswm nifer y tanau damweiniol mewn anheddau bob blwyddyn yn is. Cytunwyd i ddarparu niferoedd yn hytrach na chanrannau mewn adroddiadau yn y dyfodol.

6.5 Er bod llai o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref wedi eu cyflwyno yn 2012-13, roedd 35% o'r archwiliadau wedi eu cynnal yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad sy'n bartner inni. Roedd hynny'n golygu eu bod yn cael eu cynnal gyda phobl fwy bregus yn y gymuned.

6.6 Da oedd nodi bod nifer gyffredinol y tanau wedi gostwng ers y flwyddyn flaenorol; ond bu cynnydd yn nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig heblaw gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Gellid priodoli'r cynnydd yn nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn rhannol i'r tywydd garw a gafwyd yn ystod y cyfnod: trawodd llong yn erbyn y lan mewn gwyntoedd cryfion yn ystod Ebrill 2012; bu llifogydd bychain yn ystod y tywydd gwlypach na'r arfer yng ngwanwyn a haf 2012, a chafwyd llifogydd mawr ar ddiwedd Tachwedd 2012.

6.7 Bu gostyngiad hefyd yn nifer y galwadau ffug maleisus, ac ystyrid bod hyn o ganlyniad i'r weithdrefn herio dda a ddefnyddir gan y rhai sy'n derbyn galwadau.

6.8 I ateb cwestiwn gan y Cyng. L W Davies, cadarnhawyd bod eiddo annomestig yn cynnwys adeiladau masnachol a chyhoeddus fel ysbytai a gwestai. Cadarnhawyd hefyd fod safleoedd gwag yn cael eu monitro, a bod y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn gweithio'n agos gyda'r heddlu i rannu cudd-wybodaeth am ddigwyddiadau a materion posibl. Cafodd yr Aelodau wybod hefyd fod ardaloedd penodol yn cael eu targedu ar sail cudd-wybodaeth a data, a bod diffoddwyr tân o orsaf dân Wrecsam wrthi'n meithrin perthynas â phobl ifanc yr ardal ac yn mynd i glybiau ieuenctid gyda'r heddlu.

6.9 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL

7.1 Cyflwynodd Ron Price o Swyddfa Archwilio Cymru yr adroddiad gwella blynyddol a oedd yn ymdrin â'r modd y bu i'r Awdurdod gyflwyno a gwerthuso gwasanaethau 2011-12 a'r modd y bu'n cynllunio gwelliannau ar gyfer 2012-13. Mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru wneud y gwaith hwn yn unol â Mesur Llywodraeth Leol 2009.

7.2 Roedd Mr Price yn falch o adrodd bod hon yn ddogfen gadarnhaol i'r Awdurdod, a rhoddodd grynodeb o'r casgliad i'r aelodau, gan esbonio bod angen i'r Awdurdod, er ei fod yn rheoli ei raglen wella yn dda, wneud rhagor o waith cymharu ei berfformiad â chyrff eraill tebyg. Roedd gwerthusiad yr Awdurdod yn ystod 2012-13 wedi gwella, felly hefyd y gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd. Nodwyd bod strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd wrthi'n cael ei datblygu ac y caiff ei chyflwyno i'r aelodau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

7.3 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn disgwyl i'r Awdurdod ymgorffori'r canfyddiadau mewn gwaith yn y dyfodol, ac roedd y cynigion ar gyfer gwella yn cynnwys y canlynol:

- parhau i ddatblygu prosesau corfforaethol i ymgysylltu rhagor â'r cyhoedd
- datblygu dulliau i ddefnyddio a gwerthuso'n ehangach ganlyniadau gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd, a rhoi gwybod i'r cyhoedd sut y mae eu mewnbwn wedi dylanwadu ar yr hyn a wnaiff yr Awdurdod
- defnyddio mwy o ddata cymharol i helpu'r Awdurdod i esbonio'r hyn y mae'n ei gyflawni a'r heriau yn y dyfodol.

7.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

8 ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL AR Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG

8.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr aelodau cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg.

8.2 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth lunio adroddiad manwl sy'n nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyrraedd y targedau a amlinellwyd yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth. Erbyn hyn, caiff yr adroddiad ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg yn dilyn diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r trefniadau o dan y Mesur newydd ar y Gymraeg.

8.3 Mae'r tri GTA yng Nghymru yn parhau i gydweithio, a byddant yn barod i ymdrin â'r Safonau newydd sydd i gael ei cyhoeddi cyn bo hir gan Lywodraeth Cymru. Y llynedd, cafwyd ymateb cadarnhaol i'r adroddiad monitro gan y Comisiynydd, ac roedd yn croesawu elfennau penodol megis recriwtio Hyrwyddwyr y Gymraeg, cydnabod staff sy'n dysgu Cymraeg a buddsoddi mewn gwasanaethau cyfieithu a hyfforddiant.

8.4 Fel yr adroddwyd ar ddechrau'r cyfarfod, roedd y Gwasanaeth wedi cael cydnabyddiaeth arbennig yn ddiweddar am ei waith yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy ennill un o Wobrau Ysbrydoli Cymru 2013 yn y categori Cymraeg yn y Gweithle.

8.5 Roedd y Cyng. L W Davies yn croesawu, ac yn canmol, y datblygiadau mewn perthynas â'r Gymraeg yn y gweithle, ac roedd hefyd yn falch o weld bod y Gwasanaeth yn cydweithio â sefydliadau eraill wrth hyrwyddo'r iaith.

8.6 Dywedodd y Cyng. J M Evans y byddai wedi bod yn well ganddo gael fersiwn fwy cryno o'r adroddiad, ac roedd y Cyng. Pemberton yn bryderus am gost y gwaith gyda'r Gymraeg, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Teimlai mai dim ond dŵr oedd ei angen i ddiffodd tanau. I ateb y sylw hwn, dywedodd y DBST mai prif nod yr Awdurdod a'r Gwasanaeth yw atal tanau, ac mae hynny'n golygu addysgu pobl ac er mwyn gwneud hyn yn effeithiol yng Ngogledd Cymru, roedd yn bwysig cyfathrebu yn newid iaith unigolion. Cadarnhaodd y DBST mai'r brif gost a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith gyda'r Gymraeg oedd yr elfen hyfforddi, ac ystyrid ei bod yn werth gwario'r arian. Roedd y Cyng. L W Davies yn cefnogi sylwadau'r DBST, a dywedodd mai diben y gwasanaeth tân ac achub yw achub bywydau, ac mae'n well gan rai pobl gyfathrebu yn eu hiaith eu hunain ac mae cael polisi ynghylch y Gymraeg yn hanfodol i sicrhau hyn i bobl Gogledd Cymru.

8.7 Dywedodd y Clerc fod hwn yn bwnc sensitif, a bod angen i'r Awdurdod a'r Gwasanaeth fuddsoddi'n briodol yn y Gymraeg.

8.8 **PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg, a chymeradwyo adroddiad monitro 2012-13 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg.**

9 GWEITHGOR Y CYNLLUN GWELLA: DIWEDDARIAD AR LAFAR

9.1 Adroddodd y DBST fod cyfarfod olaf y gweithgor wedi ei gynnal yn gynharach yn y dydd i edrych ar argymhellion arfaethedig i'w cynnwys yn y Cynllun Gwella ac i'w dwyn ymlaen i'r cyfarfod llawn o'r Awdurdod ym mis Medi.

9.2 Bu'r Gweithgor yn trafod materion yn ymwneud â'r gyllideb ar gyfer y tair blynedd nesaf, a chanolbwyntio ar y ffaith y byddai unrhyw ostyngiad yn y gyllideb yn cael effaith anghymesur ar ofal tân yng Ngogledd Cymru. Roedd y gweithgor wedi edrych hefyd at y gofal tân ar hyn o bryd yn y Gwasanaeth, ynghyd â'r heriau o ran parhau â gofal tân 24/7 mewn ardaloedd gwledig gan ddefnyddio'r system RDS bresennol. Cydnabyddir ers tro nad yw'r system yn addas ymhobman, ond eto, mae'n parhau i weithio'n effeithiol mewn rhai ardaloedd.

9.3 Roedd y Gweithgor wedi penderfynu symud ymlaen â'r ddau amcan canlynol fel rhan o'i raglen i wella gwasanaethau yn ystod y flwyddyn i ddod:

- Ceisio cynnal y gwasanaeth drwy ddefnyddio dulliau arloesol a chreadigol i gyfyngu ar yr effaith ar gyllidebau'r awdurdodau cyfansoddol
- Cefnogi'r defnydd o amrywiaeth o ddulliau rheoli i ddarparu'r gofal tân gorau posibl yng Ngogledd Cymru o ystyried y cyfyngiadau ariannol.